COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O’R IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (A) A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD MAWRTH, 8 HYDREF 2024 10:00

Presennol

Y Cynghorydd M Lewis – Cadeirydd

A R Berrow    J Llewellyn-Hopkins    J E Pratt

Presennol – O Bell

S J Bletsoe

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RJ Collins a/ac MJ Kearn

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Nick Dennison | Cyfreithiwr |
| Kirsty Evans | Uwch Swyddog Trwyddedu |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Nimi Chandrasena | |

Datganiadau o Ddiddordeb

Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau.

**58. Cymeradwyaeth Cofnodion**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | **PENDERFYNWYD:** Derbyn cofnodion Is-bwyllgor Trwyddedu A a gynhaliwyd ar 20/08/24 fel gwir gofnod manwl gywir |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 08/10/2024 |

## 59. Caniatáu Trwydded Cerbyd Hurio Preifat

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu adroddiad yn gofyn am i'r Is-bwyllgor wneud penderfyniad ynghylch cais am ganiatáu trwydded hurio cerbyd preifat sy'n disgyn oddi allan i ganllawiau polisi'r Pwyllgor Trwyddedu. Gan hynny fe adawodd y pwyllgor a'r ymgeisydd yr ystafell i archwilio'r cerbyd.<br><br>Roedd gan yr Is-Bwyllgor adroddiad o'i flaen gan Swyddog Trwyddedu'r Cyngor oedd yn cynnwys manylion am y cerbyd y cyfeirir atynt yn y cais.<br><br>Yn dilyn hyn fe wnaeth aelodau o'r Is-Bwyllgor archwilio'r cerbyd yn swyddfeydd y Cyngor a chafodd y cyfarfod ei ohirio dros dro ar gyfer y pwrpas hwn.<br><br>Wedi i'r aelodau ddychwelyd i'r cyfarfod, ac i'r Cadeirydd ei ailagor, cadarnhawyd bod rhif cofrestru a nifer milltiroedd y cerbyd fel a ganlyn:<br><br>• Rhif Cofrestru OU18 EGC - 110,825<br><br>Yna, bu i'r Aelodau drafod y pwyntiau canlynol:<br><br>• Beth oedd dyddiad prynu'r cerbyd<br>• Mewn perthynas â dogfen B5, y nifer o seddi a grybwyllwyd ar gyfer y cerbyd oedd 6 (ac eithrio'r gyrrwr), roedd y cais am 6 teithiwr a chadair olwyn.<br>• Cafwyd ymholiad gan aelod i'r Uwch Swyddog Trwyddedu ynghylch faint o gerbydau hurio preifat neu Drwyddedau Cerbydau Hacni anabl oedd yn cael eu dal ac a oedd wedi'u cofrestru gyda'r Awdurdod Lleol.<br>• Y rheswm pam roedd y cerbyd wedi ei brynu oddi allan i fanylebau'r polisi, gan fod yr ymgeisydd yn ymwybodol o'r manylebau hyn.<br>• Gofynnodd aelod i'r Ymgeisydd a oedd wedi gweithio ar aseiniadau gwaith a oedd eisoes yn aros y cerbyd oedd o fewn y cais, ac ymatebodd yr Ymgeisydd ei fod.<br><br>Yna bu i'r ymgeisydd a'r Uwch Swyddog Trwyddedu adael y Siambr i alluogi'r Is-Bwyllgor i ystyried y ffeithiau y manylwyd arnynt yn yr adroddiad a'r rhai a drafodwyd yn y cyfarfod, er mwyn gweld a fyddent yn gallu dod i benderfyniad ynghylch y cais. |

| | |
|---|---|
| | Wrth gael eu galw'n ôl i'r cyfarfod, dywedwyd ei fod.<br><br>**PENDERFYNWYD:** Cytunwyd y dylid caniatáu Trwydded Hurio Preifat i'r Ymgeisydd ar gyfer y cerbyd oedd yn rhan o'r cais, fel pe bai'r cerbyd oddi allan i'r polisi oedran fel y'i cynhwysir yng nghanllawiau'r Polisi Trwyddedu, a chymeradwywyd y drwydded oherwydd cyflwryr angen am gerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn ym Mhen-y-bont ar Ogwr  taclus y cerbyd pan gafodd ei archwilio gan aelodau.<br><br>Cytunwyd yn ogystal y dylid pwysleisio bwysigrwydd cadw at y Polisi Oedran wrth yr ymgeisydd ar lafar ac yn ysgrifenedig, ar gyfer unrhyw geisiadau y byddai'n ystyried eu gwneud yn y dyfodol. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 08/10/2024 |

## 60. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Nid oedd unrhyw eitemau brys |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 08/10/2024 |

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y dolenni hyn os gwelwch yn dda:

Rhan 1
Rhan 2
Rhan 3
Rhan 4

Daeth y cyfarfod i ben am 10:35.